**FIN(3)-12-10 : Papur 2**

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG WELSH
LANGUAGE BOARD

Angela Burns
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

02 Mehefin 2010

Annwyl Ms Burns,

**Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)**

Diolch i chi am eich llythyr 17 Mai sy'n holi'r Bwrdd ynghylch rhai agweddau ar gostau ariannol y Mesur arfaethedig.

Yn fras, nid ydym yn credu fod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn asesu goblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig mewn modd realistig, a hynny'n bennaf am ddau reswm:

- Yn gyntaf, fel y mae'r Pwyllgor Cyllid i'w weld yn cydnabod yn barod, sut mae mesur yn synhwyrol effaith ariannol y Mesur pan nad oes unrhyw eglurder wedi ei gynnig ynghylch y drefn a arfaethir, yn arbennig natur y safonau a'r gwaith fydd ynghlwm wrth eu gosod a'u gweithredu, ac amserlen hynny i gyd?
- Yn ail, nid yw'r Llywodraeth wedi cyflwyno dadleuon ystyrlon i geisio profi y bydd y drefn newydd yn symlach ac yn haws i'w gweithredu; yn fwy eglur, effeithio a chyson; ac yn fwy rhesymol.

Yn ein tystiolaeth i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, bu inni ofyn:

> *'A fyddai'r baich gweinyddol yn llai yn ystod y* ***cyfnod trosiannol*** *a chyda'r drefn newydd? Byddai dwy broses yn cyd-fynd am gyfnod: ceisio sefydlu system safonau newydd, a dal i weithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg. Beth fyddai cost hyn, ac a fyddai'r gost honno'n rhesymol?'*

Mae'r cwestiynau a godir yma'n dal heb eu hateb mewn unrhyw fanylder gan y Llywodraeth. Ein barn ni, felly, yw na fyddai'n ddichonadwy nac yn ymarferol ariannu'r broses o sefydlu'r strwythur a nodwyd yn y Mesur arfaethedig o fewn cyllideb o £13.8 miliwn, heb gyfyngu'n sylweddol ar y gwaith o hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5/7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT
post@byig-wlb.org.uk
www.byig-wlb.org.uk

Welsh Language Board
Market Chambers
5/7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT
post@byig-wlb.org.uk
www.byig-wlb.org.uk

T +44 (0)29 2087 8000
Ff +44 (0)29 2087 8001
Cadeirydd_Chair Meri Huws
Prif Weithredwr_Chief Executive Meirion Prys Jones
Swyddfeydd eraill_Other offices Caernarfon, Caerfyrddin_Carmarthen

Noddir gan Llywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Yn y cyfnod trosiannol, er y byddai llai o waith ar gymeradwyo Cynlluniau Iaith Gymraeg, byddai angen tipyn rhagor o waith ar fonitro eu gweithrediad, gan y byddid yn rhaid sicrhau na fyddai cyrff cyhoeddus yn llaesu dwylo wrth weld yr hen drefn yn dod i ben, a hynny'n arwain at wasanaethau mwy cyfyng ac o ansawdd is i'r defnyddwyr. Ystyriwn hwn yn berygl go iawn. Yn ychwanegol at hynny, byddai angen ar yr un pryd adnoddau gweithredol pellach, ynghyd â chyngor cyfreithiol manwl, i gyflwyno'r drefn newydd a sicrhau y bydd hi'n arwain at well gwasanaethau i siaradwyr y Gymraeg. Ond cyn gweld a fyddai hynny'n ymarferol bosibl a cheisio rhoi amcan o'r costau, rhaid gwybod mewn llawer mwy o fanylder beth fydd cyflwyno a gweithredu'r drefn newydd yn ei olygu'n ymarferol.

Yn gywir,

Meri Huws

**Meri Huws**
***Cadeirydd***

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5/7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT
post@byig-wlb.org.uk
www.byig-wlb.org.uk

Welsh Language Board
Market Chambers
5/7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT
post@byig-wlb.org.uk
www.byig-wlb.org.uk

T +44 (0)29 2087 8000
F +44 (0)29 2087 8001

Cadeirydd_Chair Meri Huws
Prif Weithredwr_Chief Executive Meirion Prys Jones

Swyddfeydd eraill_Other offices
Caernarfon, Caerfyrddin_Carmarthen

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE